**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 29 Gorffennaf 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| B Apsley (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); S Forrest a G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Hughes ac S Wiliam (Swyddfa Archwilio Cymru); H Howard (Pennaeth Cyllid); P Bass (Yr Ysgrifenyddiaeth/Cofnodydd).

1. YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 IONAWR 2019

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5. MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. DATGANIAD O GYFRIFON 2018/19, SY'N CYNNWYS Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

6.1 Rhoddodd y Trysorydd adroddiad a oedd yn cyflwyno Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2018/19, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a'r Adroddiad ar Archwilio'r Datganiad Ariannol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am waith y Pwyllgor Archwilio yn craffu ar adroddiadau cyllid ac yn gwneud argymhellion i'r Panel Gweithredol. Er mwyn bodloni'r gofyniad fod y cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn cael eu cymeradwyo erbyn y dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2019, roedd yr Awdurdod wedi dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.

6.3 Fe wnaeth y Trysorydd ganmol y gwaith a wnaed i sicrhau bod y dyddiad cau wedi cael ei gyrraedd.

6.4 Cafodd yr Aelodau wybod bod sefyllfa ariannol 2018/19, ar ôl yr archwiliad, yn parhau fel yr adroddwyd i'r Awdurdod fel sefyllfa alldro drafft, sef £34.141m o wariant net, gan arwain at gyfraniad o £0.649m o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.

6.5 Cafodd yr aelodau wybod hefyd fod yr Adroddiad ar Archwilio'r Datganiad Ariannol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cadarnhau'r bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ynghyd â llythyr sylwadau.

6.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfa alldro archwiliedig fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19;**

**(ii) nodi'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19;**

**(iii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod ac sy'n cynnwys llythyr sylwadau; a**

**(iv) cadarnhau'r argymhelliad ynglŷn â chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.**

7. GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS GWIRIONEDDOL 2018/19

7.1 Fe wnaeth Sandra Forrest roi golwg gyffredinol ar yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o Weithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ac a oedd yn nodi Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol a Diwygiedig 2018/19.

7.2 Mynegodd yr aelodau bryderon ynglŷn ag a oedd digon yn gyllideb i ymorol am 1% o ddyled ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Cadarnhawyd bod cyllideb ddigonol ar gael ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw bryderon, ond bydd y sefyllfa'n cael ei monitro.

7.3 Fe wnaeth yr aelodau ganmol y gwaith a wnaed ar y mater hwn.

**7.4 PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod Dangosyddion Darbodus gwirioneddol 2018/19 yn cael eu cymeradwyo.**

8. YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

8.1 Fe wnaeth Keith Williams gyflwyno'r adroddiad a oedd yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2018/19 ac yn rhoi sicrwydd fod gan yr Awdurdod brosesau rheoli digonol ac effeithiol i reoli'r modd roedd yn cyflawni ei amcanion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

**8.2 PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2018/19; a**

**(ii) nodi'r asesiad Archwilio Mewnol, sy'n cadarnhau bod gan yr Awdurdod brosesau rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.**

9. MATERION BRYS

9.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.1 Mae'r cyfarfod nesaf wedi cael ei drefnu ddydd Llun, 9 Medi. Ond gan fod yr agenda'n un ysgafn iawn awgrymwyd bod y cyfarfod yn cael ei symud ac yn cael ei gynnal yn syth cyn y cyfarfod o'r Awdurdod Llawn ar 16 Medi.

**10.2 Penderfynwyd aildrefnu'r cyfarfod nesaf, a'i gynnal am 9.30am ddydd Llun, 16 Medi 2019 yn Siambrau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.**